

**HYSBYSIAD O FWRIAD I GYFYNGU AR  
GYMWSTRERAU BLAENORIAETHOL A  
WNAED O DAN ADRAN 14 O DDEDDF  
CYMWSTRERAU CYMRU 2015**



23 Chwefror 2021

**Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru (Lefel 3)**

Dyma hysbysiad o'n bwriad i gyfyngu ar nifer y ffurfiau ar gymhwyster.

Mae'n ofynnol o dan Adran 14 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 ("Y Ddeddf") i Cymwysterau Cymru hysbysu pob corff dyfarnu cydnabyddedig ac unrhyw berson arall y mae Cymwysterau Cymru yn credu y gellid yn rhesymol ddisgwyl bod ganddo fuddiant yn y bwriad i gyfyngu.

Mae'r pwnc, y rhesymeg, y dystiolaeth ategol a'r trefniadau ar gyfer y cyfyngiad arfaethedig i'w gweld isod.

Bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried sylwadau ar y cynnig hwn a dderbynnir erbyn **6 Ebrill 2021** cyn penderfynu cyhoeddi penderfyniad ar gyfyngu.

Y cymhwyster rydym yn bwriadu ei gyfyngu:

Mae Cymwysterau Cymru yn cynnig cyfyngu ar y cymhwyster\* canlynol i **un ffurf**:

**Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru (lefel 3)**

\* Gall Cymwysterau Cymru amrywio'r teitl a/neu gynnwys ardystiadau'r teitl yn y disgrifiad cymhwyster cyn cyhoeddi Meini Prawf Cymeradwyo.

Yr effaith bosibl:

Pe baem yn mynd ymlaen i gyfyngu'r cymhwyster hwn i un ffurf, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a dderbyniwn i'r hysbysiad hwn, byddai'r cymhwyster/cymwysterau canlynol yn cael eu heffeithio gan y cyfyngiad arfaethedig:

- Bagloriaeth Cymru Uwch

**Qualifications Wales**

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



[www.cymwysteraucymru.org](http://www.cymwysteraucymru.org)

**Cymwysterau Cymru**

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222

- Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru)

Efallai yr effeithir ar gymwysterau eraill, yn benodol y rhai sy'n bodloni'r disgrifiad canlynol:

Unrhyw gymhwyster lefel 3 o'r un maint neu faint tebyg (360 GLH) gyda'r prif ddiben o ddatblygu ac asesu'r sgiliau canlynol:

- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau;
- Creadigrwydd ac Arloesedd;
- Effeithiolrwydd Personol; a
- Cynllunio a Threfnu.

Bydd unrhyw gymhwyster a ystyrir gennym ni yr un fath neu'n debyg i **Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru (lefel 3)** yn cael ei ystyried ar gyfer tynnu cymeradwyaeth yn ôl neu ddirymu dynodiad. Yn dilyn yr hysbysiad hwn, os penderfynwn fwrw ymlaen â'r cyfyngiad, byddwn yn ysgrifennu at gyrff dyfarnu maes o law gyda gwybodaeth am nodi a phenderfynu ar yr un cymwysterau neu gymwysterau tebyg.

Pe baem yn bwrw ymlaen â'r cyfyngiad, bydd gyrff dyfarnu (neu bartion eraill â diddordeb) yn gallu rhoi cyfiawnhad pam na ddylid rhestru rhai cymwysterau neu awgrymu cymwysterau pellach y dylid eu hychwanegu.

### **Sail resymegol dros y cyfyngiad arfaethedig:**

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddwyd adroddiad gennym, ['Adolygiad o'r broses o gyflwyno'r Bagloriaeth Cymru o fis Medi 2015'](#), a aeth ati i ymchwilio i faterion a godwyd gan randdeiliaid yng nghamau gweithredu cychwynnol cyfres o [Gymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau \(THS\) a Bagloriaeth Cymru cysylltiedig](#). Daethom i'r casgliad y dylid cynnal adolygiad o asesiad a strwythur y THS, a'i lle o fewn Bagloriaeth Cymru.

O ganlyniad, ym mis Ebrill 2018 gwnaethom gyhoeddi adroddiad '[Adolygiad o gynllun a model asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau, a'i lle o fewn Bagloriaeth Cymru](#)', yn dilyn adolygiad annibynnol a gynhaliwyd gan Wavehill Ltd, mewn partneriaeth â Sefydliad Addysg UCL .

Canfu'r adolygiad fod y Dystysgrif Her Sgiliau yn gymhwyster gwerth chweil sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ennill sgiliau bywyd go iawn ac i ddatblygu eu diddordebau trwy ddewis meysydd astudio sy'n berthnasol iddyn nhw. Fodd bynnag, gwnaeth argymhellion hefyd i fynd i'r afael â diffygion, er enghraifft o ran cymhlethdod, hydrinedd ac ailadrodd.

Rydym wedi gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid i ddatblygu cynigion ar gyfer cymhwyster newydd a gwnaethom [Ymgynghori](#) yn hydref 2020 ar gynigion i:

- Ddod â fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru Uwch i ben gan ganiatáu ffocws ar y Dystysgrif Her Sgiliau (THS) Uwch fel cymhwyster annibynnol; a
- datblygu cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau (THS) Uwch newydd.

Cynigir y cyfyngiad i hyrwyddo ein Prif Nodau, ac i:

- Ein galluogi i arfer dewis rhwng gwahanol gyrff dyfarnu drwy broses o gystadlu teg ac agored, i nodi corff dyfarnu i ddatblygu'r cymhwyster hwn;
- Osgoi anghysondeb rhwng gwahanol fathau o'r un cymhwyster, gan alluogi pob dysgwr i gael ei asesu gan ddefnyddio'r un fethodoleg asesu, gan sicrhau mwy o gysondeb; ac i
- Gefnogi hyfywedd economaidd cyrff dyfarnu i ddatblygu cymwysterau o'r fath ar gyfer Cymru.

Mae'r broses hon o gyfyngu a chomisiynu hefyd yn ein galluogi i:

- Ragnodi gofynion gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg a datblygiad proffesiynol.
- Sicrhau bod cyfathrebu ynglŷn â'r cymhwyster, a chodi ymwybyddiaeth mewn perthynas ag ef, yn haws i ddysgwyr, cyflogwyr a chanolfannau ei ddeall.

## **Tystiolaeth ategol ar gyfer y cyfyngiad arfaethedig:**

Mae tudalen 6 o'n Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol a'n Polisi Cymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig yn nodi y gellir cyfyngu ar gymwysterau Blaenoriaethol os yw Cymwysterau Cymru wedi'u bodloni ei bod yn ddymunol gwneud hynny, gan roi sylw i'r prif nodau a'r amcanion i:

- osgoi anghysondeb rhwng gwahanol fathau o'r un cymhwyster (drwy gyfeirio at lefel cyrhaeddiad a ddangosir gan wahanol ffurfiau o'r un cymhwyster, neu fel arall); a
- galluogi Cymwysterau Cymru i arfer dewis rhwng gwahanol gyrff dyfarnu neu wahanol fathau o gymhwyster fel yr amlinellir o dan adran 14(4) o'r Ddeddf.

O ystyried bod datblygu'r cymhwyster newydd yn dilyn adolygiadau proffil uchel amrywiol, mae cynnal hyder y cyhoedd yn ystyriaeth hollbwysig ac agwedd bwysig ar hynny yw'r angen i osgoi anghysondeb rhwng gwahanol ffurfiau o'r un cymhwyster.

Yn benodol, mae natur benodol asesiad y cymhwyster hwn yn golygu y byddai monitro a chynnal safonau yn gymhleth (ac yn gostus) i Cymwysterau Cymru a chyrrff dyfarnu pe bai mwy nag un corff dyfarnu yn cynnig y cymhwyster, fel y gellid digwydd gyda dull a arweinir gan y farchnad. Byddai unrhyw fethiant canfyddedig neu wirioneddol yn hyn o beth (e.e. diffyg cymaroldeb ac ati) yn arbennig o niweidiol o ran enw da o dan unrhyw amgylchiadau, ond yn fwy felly yn yr achos hwn, o ystyried bod y cymhwyster hwn yn cael ei ddatblygu o ystyried adolygiadau amrywiol.

Mae tudalen 7 o'r Polisi Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol a Chymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig, yn nodi y byddai 'cyfyngiad yn cefnogi'r hyfywedd economaidd i gyrff dyfarnu ddatblygu cymwysterau o'r fath i Gymru'. Credwn fod hyn yn ffactor yn yr achos hwn gan ein bod yn rhagweld y bydd costau datblygu a gweithredu yn sylweddol, tra bod incwm yn llai rhagweladwy. Er enghraifft, byddwn yn disgwyl i'r holl adnoddau, hyfforddiant i ganolfannau ac asesiadau fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. O ganlyniad, rydym yn cynnig cyfnod cyfyngu o saith mlynedd.

I grynhoi, mae Cymwysterau yn fodlon, o ystyried y prif nodau yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015, ei bod yn ddymunol cyfyngu nifer y ffurfiau ar y cymhwyster hwn a gymerir gan ddysgwyr ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus i uchafswm o un.

### **Trefniadau ar gyfer y cyfyngiad arfaethedig:**

Cyn gwneud penderfyniad i gyfyngu, rhaid i Cymwysterau Cymru ystyried unrhyw sylwadau a wnaed mewn perthynas â'r hysbysiad o fwriad i gyfyngu. Mae gan bartïon â diddordeb tan **6 Ebrill 2021**, i gyflwyno sylwadau mewn ymateb i'r hysbysiad hwn i gyfyngu.

Dylid cyflwyno sylwadau i [skilledforthefuture@qualificationswales.org](mailto:skilledforthefuture@qualificationswales.org)

Cyfyngiad arfaethedig:	Cyfyngu'r cymhwyster i un ffurf a ddarperir gan un darparwr gwasanaeth.
Dull y cyfyngiad arfaethedig:	Llwybr comisiynu
Cyfnod y cyfyngiad arfaethedig:	7 mlynedd o'r addysgu cyntaf.
Dyddiad cau ar gyfer sylwadau ar y cyfyngiad arfaethedig:	6 Ebrill 2021

**Amserlenni lefel uchel dangosol:**

<b>Gweithgareddau</b>	<b>Dyddiadau Dangosol</b>
Ymgysylltu cyn tendro	Ebrill / Mai 2021
Cyhoeddi hysbysiad contract	Mai / Mehefin 2021
Dyfarnu'r contract	Hydref 2021
CD yn datblygu'r cymhwyster	Hydref 2021 – Mawrth 2022
Cymhwyster yn mynd drwy broses gymeradwyo Cymwysterau Cymru	Ebrill 2022 – Awst 2022
Addysgu cyntaf	Medi 2023
Dyddiad gorffen gweithredol	31 Awst 2030
Dyddiad gorffen yr ardystiad	31 Awst 2032